



Pwyllgor Defnyddwyr  
Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru  
**Public Transport Users'  
Committee For Wales**

Darparu gwybodaeth am  
**drafnidiaeth** gyhoeddus  
Ebrill 2012

# Darparu gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus Ebrill 2012

## Tudalen gynnwys

Crynodeb Gweithredol	3
Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus - rôl a chylch gwaith	6
Pam benderfynodd y Pwyllgor adolygu'r wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru?	7
Cwmpas yr adolygiad a'r adroddiad	8
Methodoleg	8
Adroddiad ar Wybodaeth am Drafnidiaeth Gyhoeddus	9
Darparwyr gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus	10
Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol	10
Awdurdodau Lleol	11
Traveline Cymru	12
Gweithredwyr bysiau	13
Croeso Cymru a Chanolfannau Croeso	13
Materion allweddol	14
Ymgynghori	14
Pobl anabl	14
Newidiadau i'r amserlen	15
Amharu ar y gwasanaeth	15
Gyrwyr bysiau a staff gweithredol	16
Arferion da	17
Ariannu gan Lywodraeth Cymru	17
Argymhellion	18
Casgliadau	20

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus ar yr wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus a ddarperir yng Nghymru.

Wrth wraidd ein gwaith a'n canfyddiadau, roedd dystiolaeth bod y ddarpariaeth gyfredol o wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru yn canolbwyntio ar angen gweithredol ac arbenigedd unigol. Prin iawn y caiff barn ac anghenion defnyddwyr eu hystyried wrth benderfynu sut, pryd a ble i ddarparu gwybodaeth briodol.

Dengys ein hymchwil bod yr wybodaeth a ddarperir am drafnidiaeth gyhoeddus ar draws rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus Cymru, yn enwedig ar gyfer bysiau, yn anghyson, yn fratiog, ac yn seiliedig i raddau helaeth ar brofiad hanesyddol. Nid yw'n cael ei llywio gan adborth defnyddwyr. Ymddengys ei bod yn ddibynnol ar gyllidebau awdurdodau unigol a/neu allu a dealltwriaeth y swyddogion cyfrifol.



Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gennym yn awgrymu nad yw Llywodraeth Cymru yn cyfleu neges glir i awdurdodau lleol o ran yr hyn a ddisgwylir ganddynt wrth iddynt fodloni eu rhwymedigaethau mewn perthynas â gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus. Nid oes unrhyw safonau gofynnol wedi'u nodi na'u gweithredu. Mae'r methiant hwn wedi arwain at ddarpariaeth anghyson ac anhrefnus ledled Cymru, sy'n aneffeithlon, yn ddrutach nag y dylai fod, yn drysu defnyddwyr ac yn aml yn arwain at ddiffyg hygrededd a ffydd yn y cynnyrch.



# Crynodeb gweithredol

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi swm sylweddol o arian cyhoeddus yn y diwydiant bysiau, er enghraifft drwy gynlluniau tocynnau teithio rhatach. Nid yw'n glir sut y caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio i sicrhau bod mesurau priodol ar waith er mwyn gwarantu'r canlyniadau a ddymunir gan Llywodraeth Cymru.



Nid oes unrhyw fesurau na chymhellion ar waith er mwyn i weithredwyr ymgysylltu â defnyddwyr neu gymhwyso safonau o ran yr wybodaeth y maent yn ei darparu. Fodd bynnag, mae'r ddibyniaeth hon ar gyllid gan Lywodraeth Cymru yn gyfle i greu a phennu safonau ac arweinyddiaeth o ran darparu gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus.

**Mae ein gwaith wedi esgor ar chwe argymhelliad allweddol. Mae'r adroddiad llawn yn rhoi rhagor o wybodaeth a manylion am yr argymhellion hyn:**

1. Dylai Llywodraeth Cymru lunio canllawiau ar gyfer darparu gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

2. Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio ymhellach i arferion gorau o ran darparu gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus o safbwynt defnyddwyr, gan gynnwys diwallu anghenion nodweddion a ddiogelir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

3. Dylid rhoi mecanweithiau ar waith i gyfyngu newidiadau i amserlenni bysiau i ddwywaith y flwyddyn, yn unol â newidiadau i amserlenni trenau. Dylid rhoi mecanweithiau priodol ar waith i roi gwybod i'r rheiny sy'n darparu gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus a'r cyhoedd am y newidiadau hyn.

4. Dylai Llywodraeth Cymru arwain ar y broses o sefydlu protocolau Cymru-gyfan ar gyfer darparu gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus pan fo rhywbeth yn amharu ar y gwasanaethau. Dylai'r canllawiau hyn gynnwys rhoi cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl i deithwyr mewn ffordd effeithlon a phrydlon.

5. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r mecanweithiau ar gyfer ariannu cyrff sy'n gyfrifol am roi gwybodaeth am drafnidiaeth. Dylai'r meini prawf ar gyfer ariannu fynnu bod y darparwyr yn cynnig gwybodaeth safonol, gywir a chyflawn.

# Crynodeb gweithredol

6. Mae ein tystiolaeth yn dangos bod gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei darparu yn y ffordd fwyaf effeithiol pan fo'r ddarpariaeth honno wedi'i chanoli a'i rheoli. Rydym yn cydnabod nad yw hyn yn debygol o ddiwallu'r anghenion a'r cyfeiriad polisi cyfredol yng Nghymru, ac rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried creu Cyd-Awdurdod Trafnidiaeth fel yr amlinellir ym maniffesto'r Llywodraeth Lafur.

Mae'r Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus yn edrych ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid ar draws y sector er mwyn cyflwyno newidiadau a fydd yn gwella'r ddarpariaeth o wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus i holl ddinasyddion Cymru a'r rheiny sy'n ymweld â Chymru.


Rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn o ddiddordeb ar draws y sector, a byddwn yn parhau i weithio ar y cyd i roi newidiadau go

iawn ar waith, gan sicrhau bod mynediad at wybodaeth, a thrafnidiaeth gyhoeddus yn gyffredinol, yn well i holl ddinasyddion Cymru a'r rheiny sy'n ymweld â Chymru.

Mae gwybodaeth gynhwysfawr am ein gwaith, ein papurau a'n hadroddiadau ar gael ar ein gwefan [www.wales.gov.uk/topics/transport/public/ptuc](http://www.wales.gov.uk/topics/transport/public/ptuc)

Hoffai'r Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus ddiolch i bawb sydd wedi gweithio gyda ni am y cyfoeth o wybodaeth sydd wedi dod i law. Ymddiheuriadau i'r rheiny sy'n gweithio yn y maes lle nad yw'ch gwaith yn cael ei gydnabod yn llawn yn yr adroddiad hwn.

Edrychwn ymlaen at weld sut y caiff ein hargymhellion eu rhoi ar waith, ac at barhau i weithio ar draws y sector i adeiladu ar y seiliau hyn.



# Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus – rôl a chylch gwaith

**Mae'r Pwyllgor Defnyddio Trafnidiaeth Gyhoeddus yn bwyllgor sy'n cynnig cyngor i Weinidogion Cymru am faterion strategol yn ymwneud â gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru, a hynny o safbwynt profiadau ac anghenion defnyddwyr.**

Mae gennym rôl a chylch gwaith eang, ac oherwydd cyfyngiadau o ran adnoddau, rhaid i ni gadw ein ffocws strategol. Felly, dyma ein nodau:

1. Sicrhau bod anghenion defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus wrth wraidd y broses o lunio polisi trafnidiaeth yng Nghymru;
2. Rhoi argymhellion arbenigol yn seiliedig ar dystiolaeth i Weinidogion, y rheiny sy'n llunio polisiau a grwpiau defnyddwyr ar bob agwedd ar bolisi trafnidiaeth.

Ewch i [www.wales.gov.uk/topics/transport/public/ptuc](http://www.wales.gov.uk/topics/transport/public/ptuc) i gael gweld ein cylch gwaith llawn a'n cylch gorchwyl.

Mae aelodau'r Pwyllgor yn dod o bob sector o'r gymdeithas gyda'r nod o sicrhau nid yn unig barn arbenigwyr a grwpiau diddordeb, ond barn y rheiny sy'n defnyddio gwahanol fathau o drafnidiaeth am ba bynnag reswm. Bydd gan y bobl hyn eu barn a'u syniadau eu hunain, ac mae'r farn honno yr un mor berthnasol er na fyddai ganddynt, efallai, yr hyder i'w mynegi'n ffurfiol.

Gyda hyn mewn cof, aethom ati i gasglu tystiolaeth a daeth amrywiol awgrymiadau a safbwyntiau i law. Amrywiol hefyd oedd i ba raddau y byddai modd eu gwireddu a pha mor berthnasol oeddent, ond roedd y broses o fynd ati i wrando a cheisio barn ynddi'i hun yn bwysig, ac ni ddylid anwybyddu'r awgrymiadau hyn gan am ydynt yn cael eu gwneud gan arbenigwyr.

Yn amlwg, rydym wedi talu sylw manwl i waith ymchwil a barn arbenigwyr, ac er ein bod ni wedi mynd ati'n fwriadol i amlygu camau ymarferol, rydym bob amser wedi rhoi gwerth mawr a sylw dyledus i farn broffesiynol.

# Pam benderfynodd y Pwyllgor adolygu'r wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru?



**Yng Nghyfarfod y Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus ar 24 Mawrth 2011, cytunwyd**

**y byddai ein hymarferion casglu tystiolaeth cychwynnol yn edrych ar y ddarpariaeth yng Nghymru.**

Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod darpariaeth annigonol o wybodaeth yn rhwystr i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ac y gallai gwybodaeth briodol a chywir esgor ar fuddion mawr.

Gellir gweld y cyd-destun deddfwriaethol a'r polisi cysylltiedig ar ein gwefan drwy: [www.wales.gov.uk/topics/transport/public/ptuc/meetings/110324meeting](http://www.wales.gov.uk/topics/transport/public/ptuc/meetings/110324meeting) mae papur 5 yn cyfeirio at hyn.

Drwy ein hymchwiliadau cychwynnol, daeth i'r amlwg bod y gyfran fwyaf o deithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus yn digwydd ar y rhwydwaith bysiau lleol (83% bysiau lleol; 16% rheilffordd a 1% bysiau pellter hir). Cytunodd y Pwyllgor felly y dylid canolbwyntio ar yr wybodaeth a ddarperir am wasanaethau bysiau lleol.

Er mwyn paratoi ar gyfer ffurfio'r Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus, cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg yn dwyn y teitl 'tell us your views.' Yn ôl canlyniadau'r arolwg hwn, roedd gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus yn bwysig iawn i ddefnyddwyr. Roedd boddhad â'r wybodaeth a ddarperir am drafnidiaeth gyhoeddus yn ffactor mwy dylanwadol ar foddhad cyffredinol â thrafnidiaeth gyhoeddus na'r un ffactor arall.

Awgryma hyn y byddai gwella'r ddarpariaeth yn cael effaith sylweddol ar foddhad defnyddwyr gyda thrafnidiaeth gyhoeddus yn gyffredinol. I rai, mae diffyg gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus yn rhwystr i ddefnyddio gwasanaethau. I eraill, mae diffyg gwybodaeth yn rhwystredigaeth reolaidd.

Roedd yr ymchwil hwn hefyd wedi dangos bod teithwyr yn llai bodlon â'r wybodaeth a ddarperir am fysiau na threnau, ac felly dyma reswm arall i'r pwyllgor ganolbwyntio ar fysiau.

# Cwmpas yr adolygiad a'r adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio crynhoi ein gwaith rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2012, ac yn cyflwyno canfyddiadau clir ac argymhellion o ran camau i'w cymryd. Yn unol â'n cylch gwaith, rydym wedi llunio'r adroddiad hwn gyda'r nod o wneud argymhellion clir i Weinidogion Cymru.

Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, bod llawer o'r materion a'r rhwystrau o ran yr wybodaeth a ddarperir yn berthnasol i gylch gwaith cyrff eraill ac felly rydym wed cynnwys argymhellion sy'n nodi meysydd lle gall Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei rôl i ddylanwadu ar eraill.

## Methodoleg

Rhannodd y Pwyllgor yn 3 is-bwyllgor er mwyn casglu tystiolaeth:

- oddi wrth ddefnyddwyr, drwy holiadur ac arolwg;
- drwy goladu a gwerthuso gwaith ymchwil presennol;
- oddi wrth ddarparwyr gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus.

Gwnaed hyn i ategu'r dystiolaeth a gaiff ei chasglu yn ein cyfarfodydd.

Mae'r ymatebion a ddarparwyd gan sefydliadau wedi'u cymryd i ystyriaeth yn ein canfyddiadau a'n hargymhellion. Daeth gormod o atebion i law i nodi'r cyfan yn yr adroddiad hwn.

Comisiynodd y Pwyllgor waith ymchwil arbenigol gan Halcrow ar dystiolaeth o arfer da o ran darpariaeth o wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus, a honno'n ddarpariaeth sydd wedi'i harwain gan ddefnyddwyr. Mae canlyniadau'r gwaith ymchwil hwn wedi'u cynnwys yn ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

<http://wales.gov.uk/topics/transport/public/ptuc/reports/ptiresearch/?skip=1&lang=cy>





# Adroddiad ar Wybodaeth am Drafnidiaeth Gyhoeddus

Gall gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus naill ai rwystro pobl rhag defnyddio'r gwasanaethau, neu alluogi pobl i'w defnyddio. Mae'n hanfodol bod gwybodaeth brydlon a pherthnasol ar gael ac yn hygyrch ar bob cam o'r daith ac wrth baratoi ar gyfer y daith.

Mae economi cynaliadwy yn mynnu bod mwy o deithwyr yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'u ceir ac yn dewis defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Maer mater o cynaliadwyeth yn cael y cyfeirio rhannol trwy ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Nid yw gwybodaeth ynddi'i hun yn ddigon; mae angen i'r gwasanaethau fod yn ddibynadwy, yn hygyrch ac yn ddigon aml i fod yn ddefnyddiol i deithwyr. Fodd bynnag, dylai gwybodaeth dda helpu i hybu niferoedd y defnyddwyr.



# Darparwyr gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus

Mae diwydiant trafnidiaeth y DU, yr Adran Drafnidiaeth a grwpiau defnyddwyr oll wedi rhoi canllawiau ar wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, mae llawer o'r canllawiau hyn wedi'u llunio o safbwynt y diwydiant yn hytrach na safbwynt defnyddwyr a bellach wedi dyddio.

Yng Nghymru, prif ddarparwyr gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus yw'r 22 awdurdod lleol, y pedwar Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol, gweithredwyr bysiau unigol a Traveline Cymru, ochr yn ochr â sefydliadau partner fel Croeso Cymru.

## Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol

Nid oes gan y pedwar Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol unrhyw gyfrifoldeb cyfreithiol dros ddarparu gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus; maent yn cynnig rhywfaint o gefnogaeth i awdurdodau lleol ac eto ymddengys nad oes modd iddynt ddylanwadu'n sylweddol ar gysondeb yr wybodaeth a chynnig darpariaeth o safon. Mae gan y Consortia rôl o ran ymgynghori ac ariannu. Roedd y pedwar Consortiwm wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus mewn perthynas â gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus.

## SWWITCH

Mae Consortiwm Cludiant Integredig De-orllewin Cymru (SWWITCH) yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol yn ei ranbarth. Mae'n helpu i greu cynlluniau teithio, gan weithio'n aml gyda sefydliadau megis y GIG, yr heddlu a chwmnïau mawr. Mae'n rhoi cyngor, yn cynnal arolygon, yn awgrymu opsiynau (yn aml gan ddefnyddio opsiynau cynllunio taith Traveline Cymru) ac yn cydweithio'n agos â'r sefydliadau dan sylw.

Mae gwefan SWWITCH yn cynnig ystod o gyngor ac awgrymiadau o ran gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus.

## Sewta

Comisiynodd Cynghair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (Sewta) waith ymchwil yn 2004 ar ddarpariaeth amserlenni a safonau yn seiliedig ar farn defnyddwyr. Yr adroddiad hwn yw sail darpariaeth gwybodaeth ac amserlenni bysiau Caerdydd (Cardiff Bus) hyd yma.

Ymddengys nad oes yna ddull systematig o weithredu a monitro nac atebolrwydd ar gyfer safonau wedi'i roi ar waith yn sgil yr adroddiad hwn. Mae bysiau Caerdydd (Cardiff Bus) wedi gweithredu'r safonau yn wirfoddol. Nid yw'n glir pa rai o'r darparwyr gwybodaeth eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol, sydd wedi mabwysiadu'r safonau hyn.

## Trac

Mae Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (Trac) wedi gwneud gwaith yn y rhanbarth i gysoni gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus. Maent wedi prynu omnitimes ar gyfer yr holl awdurdodau lleol (Ceredigion, Powys a thraean o Wynedd) ond mae problemau technolegol wedi amharu ar gynnydd y prosiect hwn.

Mae Trac wedi creu llyfrynnau amserlenni rhanbarthol, a'r rheiny ar gyfer: Bannau Brycheiniog, a enillodd wobr, Aberystwyth a Dolgellau. Fe'u cynhyrchwyd mewn cydweithrediad â'r awdurdodau lleol, ac maent wedi'u hanelu at dwristiaid. Mae'n cydnabod bod yna broblem wrth i amserlenni newid yn rhy aml, gan olygu bod llyfrynnau o'r fath yn dyddio'n gyflym ac felly'n anghywir.

## Taith

Mae Taith yn ymwybodol o anghysondeb o ran yr wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus a ddarperir yn ei ranbarth. Maent defnyddio arian grant i ddarparu gwybodaeth fyw, fel y mae'n newid, ond cyfyngedig yw'r ddarpariaeth hon. Mae Taith yn cydnabod bod angen un system weithredu er mwyn sicrhau cysondeb ac effeithlonrwydd ariannol.

Ar ôl gwranddo ar yr hyn sydd gan y pedwar Consortiwm i'w ddweud, mae'n amlwg bod angen mynd i'r afael ag anghenion gwahanol gwsmeriaid wrth ddarparu gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus, a bod angen darparu'r wybodaeth hon drwy nifer o wahanol gyfryngau.

Er enghraifft, ymddengys bod pobl hŷn yn llai tebygol o ddefnyddio'r rhynggrwyd i gael gafael ar wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus, tra bod pobl ifanc yn fwy tebygol o droi at dechnoleg fodern. Mae pobl ifanc a phobl hŷn yn fwy tebygol o ddibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus na grwpiau eraill.

Roedd y pedwar Consortiwm yn cytuno bod angen mwy o gydweithio a chydgyssylltu rhwng y gweithredwyr bysiau, yr awdurdodau lleol a'r pedwar Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol o ran darparu gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus.

## Awdurdodau Lleol

Mae gan awdurdodau lleol rheidrwydd i ddarparu gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae gwariant a'r adnoddau a ddyrennir ar gyfer darparu gwybodaeth am wasanaethau bysiau yn amrywio'n sylweddol yn unol â blaenoriaethau Awdurdodau Lleol. Yn niffyg safonau gofynnol clir, mae profiad y teithiwr yn un anghyson, yn enwedig o ran gwasanaethau neu deithiau sy'n croesi ffiniau.

Mewn rhai amgylchiadau, mae gwahanol awdurdodau lleol yn cydgysylltu'r gwaith y maent yn ei wneud o ran gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r Gymdeithas Cydgysylltu Swyddogion Trafnidiaeth yn tynnu ynghyd swyddogion awdurdodau lleol sy'n gweithio ym maes datblygu a gweithredu polisi strategol er mwyn sicrhau gwasanaethau trafndiaeth i ystod eang o awdurdodau cyhoeddus.

Drwy rannu gwybodaeth a safbwyntiau, mae'r Gymdeithas yn helpu i lunio polisiâu a safonau ac yn hyrwyddo mentrau trafndiaeth gyda'r nod o wella gwasanaethau i deithwyr.

Yn 2008, lluniodd y Gymdeithas Cydgysylltu Swyddogion Trafnidiaeth adroddiad yn cynnig egwyddorion arweiniol o ran yr hyn y mae'r diwydiant yn meddwl yw dymuniadau'r teithiwr mewn perthynas â gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus. Mae llawer o'r egwyddorion a nodir yn yr adroddiad yn gwbl ddilys, ac eto, nid ydynt wedi'u rhoi ar waith. O ganlyniad, mae llawer o argymhellion yr adroddiad hwn yn ailadrodd argymhellion adroddiad Cymdeithas Cydgysylltwyr Swyddogion Trafnidiaeth 2008.

Ceir cronfa ddata genedlaethol, DU-gyfan, ar gyfer arosfannau bysiau, wedi'u cofnodi yn ôl cyfeirnod grid, sy'n disgrifio'r arosfannau'n fanwl. Dylai awdurdodau lleol ddiweddarau'r gronfa ddata hon pan fo newidiadau yn cael eu gwneud, ond yn aml, nid yw hyn yn cael ei wneud. Golyga hyn nad yw'r gronfa ddata byth yn gywir nac wedi'i diweddarau, ac ni ellir dibynnu arni. Pe bai'r broblem hon yn cael ei datrys, byddai'n gwella'r wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus, a hynny i ddefnyddwyr a gweithredwyr fel ei gilydd.

## Traveline Cymru

Mae Traveline Cymru yn bwynt cyswllt unigol ar gyfer gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus o bob math ledled Cymru.

Caiff Traveline Cymru ei ariannu a'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r rôl hon. Fe'i sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn y lle cyntaf fel canolfan alwadau ond fe'i ymestynnwyd i gynnwys cyfleusterau cynllunio teithiau drwy gyfrwng eu gwefan, yn ogystal â darparu cyfathrebiadau cyfryngau symudol.

Mae Traveline Cymru yn ennill incwm ychwanegol o daliadau gan weithredwyr am bob galwad sy'n rhoi gwybodaeth am wasanaethau'r gweithredwyr hynny. Nid yw taliadau o'r fath yn orfodol yng Nghymru, yn wahanol i Loegr, lle ceir gofyniad rheoleiddiol i weithredwyr dalu Traveline England.

Mae nifer o'r gweithredwyr masnachol yn gwrthod talu'r ffioedd hyn yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae problemau sylweddol o ran cywirdeb data gan nad yw Traveline Cymru yn cael gwybod bob amser am newidiadau i wasanaethau. Mae'n ofynnol i weithredwyr bysiau roi gwybod i'r Comisiynydd Trafnidiaeth am newidiadau 56 diwrnod ymlaen llaw. Nid yw'r wybodaeth hon bob amser yn cael ei throsglwyddo i Traveline Cymru ac nid oes ganddo unrhyw hawl gyfreithiol i'r wybodaeth hon.

Mae tactegau dwyn perswâd ac amlinellu'r fantais i'r naill a'r llall o rannu gwybodaeth wedi esgor ar rai gwelliannau. Serch hyn, byddai gofyniad i rannu gwybodaeth yn sicrhau gwybodaeth gywir am drafnidiaeth gyhoeddus i ddefnyddwyr.

### **Gweithredwyr bysiau**

Mae nifer o weithredwyr bysiau yng Nghymru, yn rhai mawr a bach. Cafodd nifer eu holi gan aelodau'r Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus er mwyn sicrhau trosolwg teg o'u cymhwysedd â'u rôl wrth ddarparu gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus ac er mwyn cael gwerthfawrogi'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu.

Nid oes gan weithredwyr bysiau ganllawiau ffurfiol yn nodi pa ddarpariaeth y maent yn eu cynnig; mae'r rhan fwyaf o'r hyn a wneir yn cael ei bennu gan hanes a phrofiad. Mae gweithredwyr yn gyfrifol am gynhyrchu eu hamserlenni eu hunain, ond mae seilwaith yr arosfannau bysiau yn eiddo i awdurdodau lleol.

Mae rhai gweithredwyr yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus mewn arosfannau sy'n cael eu dirprwyo iddynt gan yr awdurdod lleol. Lle mae mwy nag un gweithredwr yn defnyddio arosfan, nid yw'r wybodaeth berthnasol am yr holl wasanaethau bob amser ar gael.

Ar achlysuron lle mae gweithredwr am wella'r wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus a ddarperir, gallant wynebu gwrthwynebiad gan yr awdurdod lleol.

### **Croeso Cymru a Chanolfannau Croeso**

Mae Cymru yn dibynnu'n helaeth ar dwristiaeth am ran fawr o'i hincwm, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae twristiaid yn dibynnu'n benodol ar wybodaeth sy'n cael ei darparu ar-lein, mewn canolfannau croeso, gorsafoedd trenau a bysiau, arosfannau bysiau, gwestai a mathau eraill o lety ac ati. Byddai ymagwedd Cymru-gyfan yn ei gwneud yn haws o lawer iddynt gael gafael ar wybodaeth gywir a diweddar.

Mae Croeso Cymru a Chanolfannau Croeso yn darparu gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus i dwristiaid. Mae dau adroddiad wedi amlygu pwysigrwydd eu rôl hwy ac wedi gwneud argymhellion. Nid yw'r argymhellion hyn wedi'u rhoi ar waith yn llawn ac mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu rhai o'r canfyddiadau hynny.

# Materion allweddol

## Ymgynghori

Comisiynodd y Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus waith ymchwil i nodi arferion da o ran y ddarpariaeth o wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r gwaith ymchwil hwn a'r dystiolaeth a gasglwyd gennym ni yn dangos na eir ati'n aml i ymgynghori â defnyddwyr er mwyn cael gwybod beth yw eu dymuniadau neu eu hanghenion hwy o ran gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cynnal ystod o weithgareddau ymgynghori o ran y ddarpariaeth a'r penderfyniadau am drafnidiaeth gyhoeddus. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth neu ymchwil sy'n dangos pa weithgareddau ymgynghori sy'n cael eu cynnal mewn perthynas â gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus yn benodol.

Ceir rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd gan ddarparwyr eu bod yn ymgynghori â defnyddwyr neu ddarpar ddefnyddwyr am yr wybodaeth a ddarperir, ond nid yw'n amlwg iawn.

Gall newidiadau i amserlenni gael effaith sylweddol ar y rheiny sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ofyniad i weithredwyr ymgynghori ar y newidiadau y maent yn eu gwneud, er bod rhai gweithredwyr yn mynd ati i wneud hyn.

Yn ein gwaith hyd yma, mae'r Pwyllgor wedi casglu tystiolaeth gan amrywiaeth o ddefnyddwyr a grwpiau defnyddwyr sy'n ceisio mynegi eu barn i'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau ar amryw lefelau, a hynny mewn perthynas â phob agwedd ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r dystiolaeth a welwyd hyd yma yn awgrymu bod rhai grwpiau defnyddwyr yn fwy effeithiol nag eraill wrth sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed a bod yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud yn cael ei ystyried.

Ni welwyd unrhyw dystiolaeth o ymagwedd gyson tuag at geisio barn defnyddwyr am y ddarpariaeth o wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus, nac o ran dylunio a chyflwyno'r wybodaeth honno mewn ffordd sy'n berthnasol i'r defnyddwyr.



## **Pobl anabl**

Nid yw pobl anabl yn un grŵp unffurf. Yn amlwg, mae gan bobl anabl sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus anghenion penodol o ran yr wybodaeth a ddarperir, ac mae'r anghenion hyn yn amrywio. Cafodd y Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus dystiolaeth benodol am anabledau yn ymwneud â cholli clyw neu olwg.

Rhaid defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu er mwyn diwallu anghenion pobl anabl. Mae cyhoeddiadau gweledol a chlywedol yn arbennig o fuddiol i rai pobl anabl. Hyd yn oed lle mae systemau cyhoeddi gweledol a chlywedol ar gael, nid ydynt bob amser ar waith.

Ar hyn o bryd, nid yw anghenion pobl anabl bob amser yn cael eu hystyried mewn ffordd gyson wrth benderfynu sut, ble ac ar ba fformat y caiff gwybodaeth ei darparu.

Yn ogystal, nid yw gwybodaeth am hygyrchedd gwasanaethau i bobl anabl ar gael bob amser. Nodwyd bod ymddygiad gyrrwyr a staff yn fater sylweddol i bobl anabl.

## **Newidiadau i'r amserlen**

Mae newidiadau aml i amserlenni yn gallu achosi problemau sylweddol i'r cyhoedd ac i'r rheiny sy'n ceisio darparu gwybodaeth gywir am drafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr.

I'r rheiny sy'n gyfrifol am wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus, mae newidiadau aml i amserlenni bysiau yn faich ar eu hadnoddau. Mae llyfrynnau amserlenni yn anghywir yn syth ar ôl eu hargraffu, rhaid diweddarau'r wybodaeth a ddarperir mewn arosfannau bysiau ar gyfradd na ellir mo'i chynnal ac mae gwybodaeth a gaiff ei chyhoeddi ar-lein yn sydyn yn anghywir o ganlyniad i newidiadau.

Mae teithwyr hefyd yn cael eu heffeithio gan newidiadau aml i amserlenni. Mae'r effaith ar deithwyr yn waeth mewn ardaloedd gwledig gan fod y gwasanaethau yn llai aml yno yn y lle cyntaf. Mae'n hanfodol bod gan bobl wybodaeth gywir am drafnidiaeth gyhoeddus. Amlygodd y Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol bod y gost sy'n gysylltiedig â diweddarau gwybodaeth mewn arosfannau mewn cymunedau gwledig yn broblem benodol.

Caiff amserlenni gwasanaethau trenau eu newid dwywaith y flwyddyn yn unig. Pe bai'r diwydiant bysiau yng Nghymru yn efelychu'r drefn hon, gallai rhai o'r problemau hyn gael eu lliniaru.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gallai lleihau newidiadau i amserlenni hefyd leihau'r hyblygrwydd annatod hwnnw sydd gan y gwasanaethau bysiau.

Byddai cyfyngu ar newidiadau i amserlenni yn gwella'n sylweddol ddarpariaeth a chywirdeb yr wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus.

# Materion allweddol

## Amharu ar y gwasanaeth

Daeth tystiolaeth i law gan lawer o grwpiau, awdurdodau lleol a gweithredwyr mai un o'r pethau anoddaf i deithwyr ymdopi ag ef yw aflonyddu'r gwasanaethau. Mae'r wybodaeth a ddarperir i deithwyr yn ystod cyfnodau o aflonyddwch yn fratiog ac yn anodd cael gafael arni, yn enwedig os nad yw'r teithwyr mewn canolbwynt teithio (transport hub).



Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fecanwaith safonol ar waith i roi'r newyddion diweddaraf i yrwyr,

teithwyr neu ddarparwyr gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus am wasanaethau sydd wedi'u haflonyddu.

Os yw'r teithwyr eisoes wedi dechrau ar eu taith neu os nad ydynt mewn canolbwynt teithio yn ystod yr aflonyddwch i'r gwasanaeth, mae gan yrwyr rôl allweddol wrth ddarparu gwybodaeth briodol ac amserol.

Mae Traveline Cymru yn dibynnu ar weithredwyr ac awdurdodau lleol i ddweud wrthynt am wasanaethau sydd wedi'u haflonyddu a newidiadau yn sgil yr aflonyddwch hwnnw. Golyga hyn nad oes gwybodaeth gywir ar gael, er bod Traveline Cymru yn bwynt cyswllt unigol i deithwyr.

Ceir tystiolaeth o rywfaint o arferion da. Mae rhai gweithredwyr yn defnyddio technoleg fodern er budd teithwyr. Golyga hynny defnyddio Facebook, tracio bysiau drwy ddefnyddio lloeren, creu gwefan a llinell ffôn bwrpasol a chysylltu â Traveline Cymru yn gynnar.

Mae'r Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd wrthi'n chwilio am ffyrdd o sicrhau bod gweithredwyr trenau yn rhoi safonau ar waith o ran yr wybodaeth a ddarperir i deithwyr yn ystod cyfnodau o aflonyddwch i wasanaethau. Dylid ceisio gweithredu safonau o'r fath ar gyfer y diwydiant bysiau yn ogystal.

## Gyrwyr bysiau a staff gweithredol

Mae gyrwyr bysiau yn bwynt cyswllt allweddol o ran darparu gwybodaeth yn ystod y daith ac wrth arosfannau.

Mae agwedd gyrwyr a'u rôl wrth ddarparu gwybodaeth effeithiol ac amserol yn hanfodol. Dylid sicrhau hyfforddiant gofal cwsmer cyson, gan gynnwys dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth a chanllawiau ymarferol o ran ymwybyddiaeth o anabledau.





## Arferion da

**Cafodd Halcrow ei gomisiynu gan y Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus i nodi enghreifftiau o arferion da mewn perthynas â gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus, ac enghreifftiau o wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus a ddarperir yn seiliedig ar bersbectif defnyddwyr.**

Aed ati i gasglu tystiolaeth am wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus ledled Cymru, y DU ac o fewn Ewrop. Er bod yr wybodaeth mewn nifer o leoedd yn cael ei hystyried yn dda iawn, mae'n bosibl nad oedd y defnyddwyr eu hunain yn rhannu'r farn honno, nac yn diffinio'r ddarpariaeth fel 'arfer gorau'.

Mae llawer o'r wybodaeth a gasglwyd gan yr ymarfer ymchwil hwn yn cael ei hatgyfnerthu gan y rheini a gyfrannodd at y gwaith ymchwil. Mae eu hadroddiad yn cynnwys argymhellion ar sut i ddatblygu a chyflwyno arferion gorau yng Nghymru. Gellir gweld yr adroddiad ar wefan y Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus. <http://wales.gov.uk/topics/transport/public/ptuc/reports/ptiresearch/?skip=1&lang=cy>

## Ariannu gan Lywodraeth Cymru

**Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi swm sylweddol o arian cyhoeddus yn y diwydiant bysiau, er enghraifft drwy gynlluniau tocynnau teithio rhatach.**

Nid yw'n glir sut y caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio i sicrhau bod mesurau priodol ar waith er mwyn gwarantu'r canlyniadau a ddymunir gan Lywodraeth Cymru.

Nid oes unrhyw fesurau na chymhellion ar waith er mwyn i weithredwyr ymgysylltu â defnyddwyr neu gymhwyso safonau o ran yr wybodaeth y maent yn ei darparu.

Fodd bynnag, mae'r ddibyniaeth hon ar gyllid gan Lywodraeth Cymru yn gyfle i greu a phennu safonau ac arweinyddiaeth o ran darparu gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus.



# Argymhellion

## Mae ein gwaith wedi esgor ar yr argymhellion canlynol:

1. Dylai Llywodraeth Cymru lunio canllawiau ar gyfer darparu gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Dylai'r canllawiau gynnwys:
  - a. Egluro rolau a chyfrifoldebau o ran gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys rôl Traveline Cymru a phartneriaid eraill megis Croeso Cymru.
  - b. Diffiniad o'r hyn a olygir wrth 'wybodaeth'.
  - c. Pennu safonau gofynnol ar gyfer darpariaeth o'r holl wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus, a hynny o ran fformat a chynnwys. Dylai'r safonau hyn fod yn seiliedig ar farn defnyddwyr, gan ystyried y rheiny sydd â nodweddion a ddiogelir. Gallai safonau o'r fath gynnwys gwybodaeth am ddiogelwch, pris, hygrychedd ac ati.
  - d. Rhoi systemau ar waith i fonitro perfformiad o ran darpariaeth o'r fath. Dylai hyn fynd ati i ystyried dulliau o orfodi safonau o'r fath gan gynnwys sancsiynau ariannol.
2. Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio ymhellach i arferion gorau o ran darparu gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus o safbwynt defnyddwyr, gan gynnwys diwallu anghenion nodweddion a ddiogelir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
3. Dylid rhoi mecanweithiau ar waith i gyfyngu newidiadau i amserlenni bysiau i ddwywaith y flwyddyn, yn unol â newidiadau i amserlenni trenau. Dylid rhoi mecanweithiau priodol ar waith i roi gwybod i'r rheiny sy'n darparu gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus a'r cyhoedd am y newidiadau hyn.
4. Dylai Llywodraeth Cymru arwain ar y broses o sefydlu protocolau Cymru-gyfan ar gyfer darparu gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus pan fo rhywbeth yn amharu ar y gwasanaethau. Dylai'r canllawiau hyn gynnwys rhoi cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl i deithwyr mewn ffordd effeithlon a phrydlon.

5. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r mecanweithiau ar gyfer ariannu cyrff sy'n gyfrifol am roi gwybodaeth am drafnidiaeth. Dylai'r meini prawf ar gyfer ariannu fynnu bod y darparwyr yn cynnig gwybodaeth safonol, gywir a chyflawn.

6. Mae ein tystiolaeth yn dangos bod gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei darparu yn y ffordd fwyaf effeithiol pan fo'r ddarpariaeth honno wedi'i chanoli a'i rheoleiddio. Rydym yn cydnabod nad yw hyn yn debygol o ddiwallu'r anghenion a'r cyfeiriad polisi cyfredol yng Nghymru, ac rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried creu Cyd-Awdurdod Trafnidiaeth fel yr amlinellir ym maniffesto'r Llywodraeth Lafur.



# Casgliadau

Dengys ein hymchwil bod yr wybodaeth a ddarperir am drafnidiaeth gyhoeddus ar draws rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus Cymru, yn enwedig ar gyfer bysiau, yn anghyson, yn fratiog, ac yn seiliedig i raddau helaeth ar brofiad hanesyddol. Nid yw'n cael ei llywio gan adborth defnyddwyr. Ymddengys ei bod yn ddibynnol ar gyllidebau awdurdodau unigol a/neu allu a dealltwriaeth y swyddogion cyfrifol.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gennym yn awgrymu nad yw Llywodraeth Cymru yn cyfleu neges glir i awdurdodau lleol o ran yr hyn a ddisgwylir ganddynt wrth iddynt fodloni eu rhwymedigaethau mewn perthynas â gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus. Nid oes unrhyw safonau gofynnol wedi'u nodi na'u gweithredu. Mae'r methiant hwn wedi arwain at ddarpariaeth anghyson ac anhrefnus ledled Cymru, sy'n aneffeithlon, yn ddrutach nag y dylai fod, yn drysu defnyddwyr ac yn aml yn arwain at ddiffyg hygrededd a ffydd yn y cynnyrch.

Ymddengys bod yr amrywiol argymhellion a negeseuon allweddol sydd wedi deillio o astudiaethau a gwaith ymchwil am wybodaeth am drafnidiaeth

gyhoeddus ers 2003 yn ailadrodd eu hunain. Mae gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus yn bwysig, ac eto yn aml yn faes cymhleth iawn. Fodd bynnag, ni ddylai hynny rwystro'r Gweinidog rhag cymryd y camau y mae'r adroddiad ymchwil diweddaraf hwn wedi dangos eu bod yn hanfodol er mwyn gwella'r ddarpariaeth o wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus.

Dylid nodi bod llawer o'r mesurau hyn wedi'u rhoi ar waith yn llwyddiannus mewn gwledydd eraill, ac wedi cael effaith sylweddol ar ansawdd yr wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus a ddarperir. Mae'r Pwyllgor Defnyddwyr Trafndiaeth Gyhoeddus yn edrych ymlaen at weld ein hargymhellion yn cael eu rhoi ar waith, ac effaith hynny.

Bydd sicrhau dull cyson o weithredu ar draws Cymru gyfan yn fanteisiol yn ariannol, gyda gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei hystyried yn rhan allweddol o ymagwedd gyflawn, integredig tuag at drafnidiaeth. Dyma faes y bydd y Pwyllgor Defnyddwyr Trafndiaeth Gyhoeddus yn mynd i'r afael ag ef yn ystod 2012.

